Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael

Mehefin 2022

Ar 14 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 6 Hydref 2022.

Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i 10 Tachwedd 2022.

Ar 20 Medi, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn ymhellach y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i 24 Tachwedd 2022.